

Cyngor Cymuned Bryncrug Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 17eg o Hydref 2022 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Jones Evans, Geraint Evans, Arwel Pierce, Alan H Jones

1. Ymddiheuriadau: Richard Evans
2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant
3. Derbyn cofnodion 18 Gorffennaf 2022:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cais am gyfetholiad:

PENDERFYNIAD: Yn unfrydol, penderfynwyd y dylid cyfethol Geraint Edwards.
Y Clerc i gysylltu gydag unigolyn sydd wedi gofyn am ragor o wybodaeth er mwyn ei gwahodd yn ffurfiol i fynychu cyfarfod o'r cyngor er mwyn arsylwi, cyn penderfynu cyflwyno cais cyfetholiad.

5. Adolygu gwariant o Ebrill 2022 i Fedi 2022:

Yr oedd taenlen Excel wedi ei ddarparu yn rhestru'r gwariant a'r gwariant yn erbyn y gyllideb am y flwyddyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr adroddiad.

6. Cyfrifon i'w talu:

Cyngor Gwynedd	Toiled	101804	£2,000.00
J.K.Jones	Torri gwair	101805	£1,080.00
Dŵr Cymru	Pafiliwn	101806	£119.57
Cyngor Gwynedd	Etholiad	101807	£107.00
Scottish Power	Trydan	101808	£151.65
Geldards	Ffi gyfreithiol	101809	£1,203.60

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.
I rannu anfoneb Geldards gydag Elusen Dolgoch – yr elfen am gyngor cyfreithiol i'r elusen.
I atgoffa Cyngor Gwynedd bod y toiled wedi bod ar gau am rai misoedd yn ystod cyfnod Covid19 a bod y cyngor yn disgwyl lleihad yn yr anfoneb.

7. Pryder am lifogydd yn ardal Dysynni:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Gyngor Tref Tywyn yn datgan bod Cyngor Cymuned Bryncrug wedi derbyn pryderon gan aelodau o'r cyhoedd am yr afon ac aber Dysynni, gan gynnig i gydweithio gyda Chyngor Tref Tywyn ar y mater.
I ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn i ble y dylai'r cyngor fynd at er mwyn cael ymatebion i bryderon am lifogydd.

8. Ambiwllans Awyr Cymru - pryder am gynlluniau arfaethedig i adleoli hofrenyddion:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor AS i ddatgan gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Bryncrug i adleoli'r hofrenyddion o Ddinas Dinlle a'r Trallwng.

9. Cyngor Gwynedd - Economi a Chymuned - Gweithdai Ardal Ni 2035 - Cais am ddau gynrychiolydd i fynychu'r gweithdy:

PENDERFYNIAD: Y Cynghorydd Richard Jones Evans a'r Cynghorydd Geraint Evans i gynrychioli'r cyngor yn y gweithdy.

10. Cyngor Gwynedd - Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - Ymgynghoriad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy:

PENDERFYNIAD: Dim sylw.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cyfarfodydd Blynyddol Cynghorau Cymuned a Thref:

PENDERFYNIAD: Y Cynghorydd Bethan Lawton i fynychu ar ran y cyngor.
Y Clerc i anfon y gwahoddiad ymlaen at y cynghorydd.

12. Dŵr Cymru - Clefyd y lleng filwyr (legionella):

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan gwmni Dŵr Cymru.

PENDERFYNIAD: Ysgrifennu at Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn am arweiniad ar y mater.

13. Barclays - Cau cangen Dolgellau:

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

14. Cae Chwarae - Adroddiad:

Rhodddwyd gair o ddiolch i'r Cynghorydd Geraint Evans am wagio'r sied.

Adroddwyd y canlynol:

-Y toiled yn fudr

-Un o'r nytiau ar goll o'r siglen nyth

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
Y Clerc angen anfon anfoneb i'r clwb pêl-droed am ddefnydd o'r Pafiliwn a'r cae.

15. Cae Chwarae - Trefniadau torri gwair ar gyfer 2023:

PENDERFYNIAD: I gysylltu gyda phedwar contractwr er mwyn gofyn am ddyfynbris i dorri'r gwair yn unig am gyfnod o dair blynedd.

16. Cae Chwarae - Dyfynbrisiau i osod dau ddrws newydd ar y Pafiliwn a'r ffrâm ddringo:

Yr oedd un dyfynbris wedi ei dderbyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y dyfynbris gan Mr Owen.

17. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

-Wedi mynychu cyfarfod arall gyda'r Bwrdd Iechyd. Y bwrdd yn adrodd bod recriwtio meddygon yn profi'n anodd, a bod y bwrdd wedi cychwyn hysbysebu am nyrs ymarferydd. Y bwrdd yn ceisio cael meddyg teulu dan hyfforddiant i Dywyn. Uned man anafiadau yn agor ym mis Ionawr 2023.

-Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar godi'r premiwm ar ail-gartrefi a thai gwag hirdymor - posib codi'r premiwm i 300%. Cynghorydd Lawton yn annog eraill i lenwi'r holiadur.

-Cyngor Gwynedd yn cynnig cymorth i brynwyr tai, sef cynllun sydd yn cynnig benthygiad ecwiti.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

18. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: Dim i'w nodi.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:21pm

Llofnod y Cadeirydd